



GRŴP DYDDIO HEN DAI CYMREIG

www.datingoldwelshhouses.co.uk

DATING OLD WELSH HOUSES GROUP

Rhif Elusen Gofrestredig 1131782 Registered Charity Number

CYLCHLYTHYR 11 – Rhagfyr 2014

NEWSLETTER 11 – December 2014

Am wybodaeth bellach cysyllter â Margaret Dunn, Ysgrifennydd brynbedd1@gmail.com 01766 890550.

For further information contact Margaret Dunn, Secretary brynbedd1@gmail.com 01766 890550.

DIOLCH LAWER i Gangen Meirionnydd am eu cyfraniadau i'r argraffiad hwn o'r cylchlythyr.

MANY THANKS to the Merioneth Branch for their contribution to this issue of the newsletter.

DARGANFOD TAI HANESYDDOL ERYRI gan Richard Suggett a Margaret Dunn

Mae cyhoeddi'r llyfr gwyh hwn yn wir yn datgan cyfnod pwysig yng ngwaith ein Grŵp. Mynychodd tua 140 o bobl lansiad y llyfr ar 4 Rhagfyr ym Mhlas Tan-y-bwlch, gan lenwi y Ddarlithfa a Stafell Oakeley – yn berchnogion tai, gwirfoddolwyr, cynrychiolwyr y cyrff ariannu ac eraill, o bob cornel o Ogledd Cymru a thu hwnt. Siaradodd ein llywydd, yr Arglwydd Elis-Thomas, am bwysigrwydd gwaith y Comisiwn Brenhinol a'r prosiect hwn, ac am y parchedig ofn a balchder a deimlai wrth syllu ar y tai hynafol hyn.

DISCOVERING THE HISTORIC HOUSES OF SNOWDONIA by Richard Suggett and Margaret Dunn

The publication of this fine book really marks an epoch in the work of our Group. Around 140 people attended its launch on 4th December at Plas Tan y Bwlch, filling the Lecture Theatre and the Oakeley Room – house owners, volunteers, representatives of the funding bodies and others, from all over North Wales and beyond. Our President, Lord Elis-Thomas, spoke about the importance of the work of the Royal Commission and of this project, and the awe and pride that he felt in looking at these ancient houses.

Yr awduron a'r siaradwyr

Diolchodd Tom Lloyd (un o'r Comisiynwyr Brenhinol ac awdur *The Lost Houses of Wales (Tai Coll Cymru)*, y mae llawer ohonom wedi ei ddefnyddio – gweler ddarlun nodedig Bryncir, er enghraifft) i'r gwirfoddolwyr am eu hymchwil hanesyddol manwl i gymaint o'r tai hyn a grefftwyd mor hyfryd – partneriaeth sy'n cydganu â pholisïau llywodraeth Cymru, gan ymestyn yn helaeth yr hyn y gallasai'r Comisiwn fod wedi ei wneud ar ei ben ei hun. Talodd deyrnged hefyd i waith anhepgor ein Hysgrifennydd yn trefnu'r cyfan.



Authors and speakers

Tom Lloyd (one of the Royal Commissioners and author of *The Lost Houses of Wales* which many of us will have used – see the remarkable picture of Bryncir, for example) thanked the volunteers for their detailed historical research into so many beautifully crafted houses – a partnership which chimes with the Welsh Government's policies, greatly extending what the Commission could have done on its own. He also paid tribute to our Secretary's indispensable work of organization.

Diolchodd Richard Suggett i'r rhai a fu'n ymwneud â chynhyrchu'r llyfr hwn ac yna aeth ymlaen (fel bob amser) i roi darlith hynod ddiddorol ac ysbrydoledig. Olrheiniodd darddiad dŷ cerrig deulawr Eryri i'r cyfoeth a ddaeth i Gymru drwy farchnadoedd gwartheg yr unfed ganrif ar bymtheg. Dim ond drwy gymorth dendrogronoleg y daeth yn bosibl i ddarganfod dyddiadau tai cynharach na'r arysgrifiadau cyntaf (tua 1570). Mae Cae Glas (ar y clawr) yn 1547/8, Coed y Ffynnon, Penmachno yn 1537, a Dugoed gerllaw yn 1516/17 (*darluniedig*). Darluniodd Richard lawer o nodweddion rhyfeddol y tai hyn a thai eraill, mewn plaster a choed yn ogystal â charreg.



Tŷ a wnaeth argraff ddfn arno, meddai, oedd Plas Tirion, Llanrwst – yma mae arfbais o blaster wedi egluro hanes y tŷ. Yn aml gellir cyfatebu'r canlyniadau dendro i dystiolaeth arall, fel yn y ddau gyfnod 1585 a 1654 mewn tŷ trawiadol arall, Uwchlaw'r Coed, Dyffryn Ardudwy.

Richard Suggett, having thanked the people involved in the production of the book, then gave (as always) a fascinating and inspiring lecture. He traced the origin of the two-storey stone Snowdonia house to the wealth brought into Wales by the sixteenth-century market for cattle. Only with the development of dendrochronology has it become possible to find the dates of houses earlier than the first inscriptions (about 1570). Cae Glas (on the cover) is of 1547/8, Coed y Ffynnon, Penmachno of 1537, Dugoed nearby of 1516/17 (*illustrated*). Richard illustrated many of the wonderful features of these and other houses, in plaster and wood as well as stone.

Fel y pwysleisiodd Richard, mae i bob tŷ ei stori ei hun yn ychwanegol at ei ddyddiad mesuredig: a thrwy astudiaeth fanwl gallwn ddeall mwy am fywydau'r bobl a'u hadeiladodd, a'r hyn a oedd o bwys iddynt. Heddiw, bu'r perchenogion yn ddigon caredig i ganiatáu i dyllau gael eu drilio yn eu heiddo; maent hwy a'r nifer fawr o bobl ein hardal sy'n ymddiddori yn yr hen dai hyn, yn rhan o draddodiad byw.



Plas Tirion, Llanrwst

Cyflwynodd Angharad Williams o'r Comisiwn Brenhinol ddiolchiadau ar ran pawb a oedd yn bresennol, ac fe bwysleisiodd gymaint y mae'r Comisiwn Brenhinol yn gwerthfawrogi cefnogaeth y Grŵp.

A house that he said had a great impact on him was Plas Tirion, Llanrwst – here the plaster coat of arms has clarified the history of the house. Often the dendro results can be closely correlated with the other evidence, as with the two phases of 1585 and 1654 at another impressive house, Uwchlau'r Coed, Dyffryn Arduwy.

As Richard stressed, every house has a story in addition to the measured date: by close study we can understand more about the lives of the people who built them, and what mattered to them. Today, the owners have been kind enough to allow holes to be drilled in their property; they and the large number of people in our area who are interested in these old houses are part of a living tradition.

Angharad Williams of the Royal Commission expressed the thanks of everyone present, and stressed again how much the Royal Commission values the support of the Group.



Cyd-drefnwyd y digwyddiad cyfan gan Keith Houghton, sydd wedi trefnu sawl agwedd o'r lansiad, yn cynnwys derbyn archebion ymlaenllaw a danfon copïau drwy'r post. Fe brynwyd a llofnodwyd copïau yn ystod y lansiad mewn awyrgylch cynnes drwy fod pawb wedi cymysgu, sgwrsio a mwynhau'r mins peis.



The whole event was co-ordinated by Keith Houghton, who has also organized many aspects of the launch, including pre-orders and the despatch of copies by post. The purchasing and signing of copies at the launch took place in a warm atmosphere as everyone mingled, chatted and enjoyed mince pies.

I BWRCASU llyfr (£27 + £4 cludiant) anfonwch eich enw, cyfeiriad llawn, tel/ebost ynghyd â siec i "Grwp Dyddio Hen Dai Cymreig" at M. Dunn, Bryn Bedd, Nant Gwynant, Gwynedd LL55 4NL.

TO PURCHASE a book (£27 + £4 p&p) please send your name, full address, tel / email with a cheque made out to "Dating Old Welsh Houses Group" to M. Dunn, Bryn Bedd, Nantgwynant, Gwynedd LL55 4NL.

NODYN ATGOFFA: mae'r holl dai y sonnir amdanynt yn y llyfr ac yn y llythyr newyddion hwn yn eiddo preifat.

REMINDER: all the houses mentioned in the book and in this newsletter are private property.

PROSIECT NEWYDD CONWY Yn ddiweddar, cawsom ein gwadd i weithio mewn partneriaeth â bwrdeistref Sirol Conwy, i ddyddio ac ymchwilio i adeiladau penodol sydd "mewn perygl" a thai cynnar eraill gan rannu'r costau 50/50. Rydym yn ddiolchgar am grant gan Gymdeithas Archeolegol Cambria ac am gyfraniadau preifat ar gyfer hyn. Mae asesu a samplu wedi dechrau, a bydd hyn, ynghyd ag ymchwil, yn parhau i'r Flwyddyn Newydd.

NEW CONWY PROJECT We were recently invited to work in partnership with Conwy County Borough Council to date and research selected "buildings at risk" and other early houses, sharing the cost 50/50. We are grateful for a grant from the Cambrian Archaeological Association and for private donations towards this. Assessment and sampling has started and, with research, will continue in the New Year.

TREFNYDD CRONFA GYLLID a DYLUNYDD GRAFFEG Rydym yn chwilio am ddau wirfoddolwr i gynorthwyo'n rhan-amser yn y meysydd hyn. Cysylltwch â Margaret os hoffech fwy o fanylion cyn penderfynu os gellwch helpu.

FUND RAISER and GRAPHIC DESIGNER We are looking for two volunteers to assist part-time in these fields. Please contact Margaret if you would like more details before deciding if you can help.

YMCHWIL WEDI EI DARGEDU Bydd rhaglen 2013-15 yn dod i ben ym Mawrth. Cafwyd dyddiadau cwmpo coed

TARGETED RESEARCH The 2013-15 programme will finish in March. Nine houses selected out of 131 visited have

mewn naw allan o 131 tŷ yr ymwelwyd â hwy. Mae aelodau'r gangen bellach yn brysur yn ymchwilio i hanes y tai hyn. Dyddiwyd hefyd dri thŷ drwy ddefnyddio technegau radiocarbon. Darganfuwyd fod y lle tân a fewnosodwyd yn Oerddwr Isaf (lle roedd dilyniant y cylchau yn y silff ben tân, a *ddarlunnir*, yn rhy fyr i'w dendro-ddyddio) o leiaf genhedlaeth yn ddiweddarach na'r prif gyfnod adeiladu yn 1494/5, er na wnaeth dadansoddiad C-14 roi dyddiad penodol gywir.



yielded felling dates. Branch members are now busy undertaking research into the house histories. Three houses were also dated using radiocarbon techniques. The inserted fireplace at Oerddwr Isaf (where the sequence of rings in the mantel, *illustrated*, was too short for dendro-dating) turns out to be at least a generation later than the main construction phase of 1494/5, though the C-14 analysis did not give a very precise date.

Yn Nhŷ Mawr Wybrnant roedd gweddillion bregus traed y nenffyrch yn awgrymu nad oedd y goeden wedi ei thorri cyn 1510 (er nad oedd mesur yn rhwydd oherwydd fod haint posibl yn un o'r samplau); mae'n debyg fod y neuadd nenfforch hon yn fan geni'r Esgob William Morgan. Fe lwyddodd ei dad, Morgan ap John, mor dda yn y fasnach wartheg fel ei fod yn gallu fforddio ailadeiladu ei dŷ yn 1559 yn ogystal ag anfon ei fab i Gaergrawnt. Ymddengys fod neuadd y Rhosyn Tuduraidd ym Miwmares tua 1458-94, ac felly yn cyfoesi ag adain Stryd y Castell 1485/6. Bydd yr holl fanylion hyn yn cael eu dangos yn fuan ar ein gwefan.

At Tŷ Mawr Wybrnant the crumbling remains of the cruck-feet suggested that the tree was not felled before 1510 (though the measurement was made difficult by possible contamination of one of the samples); the old cruck-hall was probably Bishop Morgan's birthplace. His father Morgan ap John did so well from the cattle-trade that he was able to afford to rebuild his house in 1559 as well as sending his son to Cambridge. The hall at Tudor Rose, Beaumaris was shown to be of 1458-94, and therefore possibly contemporary with the Castle St wing of 1485/6. All details will soon be on our website.

LLYFRYNNAU NEWYDD Llongyfarchiadau i aelodau Conwy a fu'n ymchwilio i **Gwm Howard**, ffermdy ar steil Eryri o ddiwedd yr 16 ganrif sydd eto i'w ddyddio'n benodol ac maent wedi cynhyrchu llyfryn "**Hanes Addysg yn Nhref Conwy**". Rhaid hefyd longyfarch aelodau Sir Ddinbych am cynhyrchu llyfryn darlunedig 50 tudalen "**Llyfr Lloffion 1 Cynwyd**" am bentref Cynwyd ac mae ar werth am £5. Bydd yr holl fanylion yn fuan ar ein gwefan.



Cwm Howard, Llandudno

NEW BOOKLETS Congratulations to Conwy members who have researched the undated late C16 Snowdonian style **Cwm Howard farm** and produced a booklet "**The History of Education in Conwy Town**". Denbighshire members are also to be congratulated on having produced a 50 page illustrated booklet "**Cynwyd Scrapbook 1**" about the village of Cynwyd for sale @ £5. All details will soon be on our website.

AR BOB CYFRIF YMWELWCH Â'N GWEFAN ar gyfer gweld adroddiadau blog o'r holl ddigwyddiadau diweddar (*mae'r darluniau yn dangos rhai ohonynt*) ac i edrych ar ein llyfrgell gynyddol. Un o'r ychwanegiadau diweddaraf (ac mae'r rhai diweddaraf bellach â *chôd lliwiau*) yw'r adroddiad dendro ar Berain: gweler

DO VISIT OUR WEBSITE to see blog accounts of all recent events (*the pictures show some of them*) and to look at our growing library.

One of the most recent additions (and the latest ones are now *colour-coded*) is the dendro report on Berain: see <http://datingoldwelshhouses.co.uk/library/reports.html> and go to the 'Conwy' section. There are also now house

<http://datingoldwelshhouses.co.uk/library/reports.html> ac ewch i adran 'Conwy'. Ceir hefyd gynlluniau newydd o dai o'r adroddiadau pensaernïol; maent ar gael yn adran y Llyfrgell. Mae'r ddalen Dendro wedi ei hymestyn i gynnwys mwy o fanylion gwyddonol. A ydych wedi archwilio tŷ Eryri ac wedi profi rhyngweithio â'r llygoden? Mae'r llinell amser yn unigryw yn y modd y mae'n arddangos ein tai mewn hanes.



plans taken from the architecture reports: they are available in the Library section.

Mae mwy o ryngweithio yn bosib gyda'r mapiau yn y llyfrgell. Gwiriwch yr 'archifau' yn y llyfrgell hanes tai, am rai hanesion diddorol eraill. Ymhle y gellwch weld: 200

The Dendro page has been expanded to give more detail to the science. Have you explored the Snowdonia house and had an interactive experience with the mouse? The timeline is unique in its display of our houses in history.

More interaction can be had with the maps in the library.

Neubren- 100 o hen Dai – 68 Cil pentan – 43 Ffenestr – 44 Panel mewnol – 27 o risiau? Gallu darllen: 65 o Hanesion Tai? Astudio: 60 Adroddiad Pensaernïol? Darganfod: 58 adroddiad dendrogronoleg? Gwirio: archif gynhwysfawr a chronfa ddata? Gwyllo: ambell 'Dendro' yn gweithredu? Mae'r datblygiadau a fu yn ein gwefan yn rhoi'r cyfle i archwilio'r holl bethau hyn.

Mae profiad o ryngweithio yn eich disgwyl pan ymwelwch â'n gwefan; yn Addysgiadol, mae'n cynnwys cyfoeth o ddata, darluniau, erthyglau, cylchlythyrau, llinellau amser hanesyddol a llyfrgell archifau hawdd eu harchwilio. Chwiliwch am y tŷ rhyngweithiol. Faint o fathau gwahanol o ddrwsau a welwch?

<http://datinggoldwelshhouses.co.uk/Cymraeg2/features.html>

Ymhle mae'r mwyafrif o'n tai ni yn ffitio o fewn y ffrâm amser hanesyddol?

<http://datinggoldwelshhouses.co.uk/Cymraeg2/timeline.html>

DIGWYDDIADAU GRŴP YN Y GWANWYN

Archebwch yn gynnar drwy Wally: wallybarr@yahoo.co.uk

01745 888622. Mae'r rhain yn costio £5 ar y diwrnod, os na ddwedir yn wahanol.

Dydd Iau 22 Ionawr: 2 yp yn Nhafarn Tŷ Mawr ac yna yn Nhŷ'n Llan, Gwyddelwern. **Dydd Gwener 27 Chwefror:** 2 yp yn Llwyn Bedw, Waunfawr, Caernarfon. **Sadwrn 21 Mawrth:** 2 yp y Cae Canol Mawr, Ffestiniog. **Gwener 26 Mehefin:** 2 yp Canolfan Dreftadaeth Porthaethwy: CCB i'w ddilyn gan ddarlith.

DIGWYDDIADAU CANGEN: archebwch drwy gysylltydd y gangen, fel arfer am £2.

CANGEN MÔN – ARFON

Cyswllt: Peter Masters: datinggoldwelshhouses@gmail.com

01758 750332. **Gwener 23 Ionawr:** 2-4 yp Y Datblygiadau Diweddaraf mewn Ymchwil i Hanes Tai gan J. Dilwyn Williams, Archifdy Caernarfon. **Mercher 18 Chwefror:** 10.30 yb – 3yp. Pensaerniaeth Gyffredin Sylfaenol gan Peter Thompson. Archifdy Caernarfon a 6 Stryd y Plas (nifer uchaf 12). **Sadwrn 14 Mawrth:** hanner dydd – 2yp. Ymweliad i Ardd Llygad y Dydd (16eg Ganrif), Nantmor, Beddgelert.

CANGEN CONWY

Cyswllt: Tony Scharer: tonyscharer@gmail.com 01745

813027. **Mercher 21 Ionawr:** Archifdy Llandudno 9.30-12.30. Bydd Susan Ellis yn siarad am yr adnoddau yn eu casgliad. **Dydd Iau 12 Chwefror:** 9.30-12.30 Archifdy Llandudno – cyfarfod cadw tŷ. **Mercher 4 Mawrth:** 10.30-12.30 Archifdy Llandudno. Peter Thompson yn siarad am bensaerniaeth gyffredin. Cinio (trefniadau eich hunain); 1.30-2.30 ymweliad i Dŷ Aberconwy, Conwy.

CANGEN SIR DDINBYCH

Cyswllt: Wally Barr: wallybarr@yahoo.co.uk 01745 888622. **Diwedd Ionawr** (dyddiad i'w drefnu): 'Sut i ymchwilio i Hanes Tŷ' – gweithdy yn Archifau Rhuthun, o dan arweiniad Margaret Dunn a staff o'r Adran Archifau.

Check out the 'archives' in the house history library for some other interesting histories. Where can you see: 200 Roof timbers – 100 old Houses – 68 Inglenook fireplaces – 43 Windows – 44 Interior panels – 27 Staircases? Read: 65 House Histories? Study: 60 Architectural reports? Find: 58 Dendrochronology reports? Check: a comprehensive archive and database? Watch: some 'Dendro' in Action?

The development of our website gives you the opportunity to explore all of these things.

An interactive experience awaits you when you visit our website; Informative and Educational, it contains a wealth of data, pictures, articles, newsletters, historic timeline and searchable archive library. Check out the interactive house. How many types of door are there?

<http://datinggoldwelshhouses.co.uk/English2/features.html>

Where do most of our houses fit into the historical time frame?

<http://datinggoldwelshhouses.co.uk/English2/timeline.html>



SPRING GROUP EVENTS

Book early with Wally: wallybarr@yahoo.co.uk 01745 888622. These cost £5 paid on the day unless otherwise stated. **Thurs 22nd Jan:** 2 p.m. at Ty Mawr Inn and then Ty'n Llan, Gwyddelwern. **Fri 27th Feb:** 2 p.m. Llwyn Bedw, Waunfawr, Caernarfon. **Sat 21st Mar:** 2 p.m. Cae Canol Mawr, Ffestiniog. **Fri 26th Jun:** 2 p.m. Menai Bridge Heritage Centre: AGM followed by lecture.

BRANCH EVENTS: book with branch contacts, usually @ £2.

ANGLESEY-CAERNARFONSHIRE BRANCH

Rep: Peter Masters: datinggoldwelshhouses@gmail.com 01758 750332. **Fri 23rd Jan:** 2-4 p.m. House History Research Update by J. Dilwyn Williams, Caernarfon Archives. **Wed 18th Feb:** 10.30 a.m. - 3 p.m. Basic Vernacular Architecture by Peter Thompson. Caernarfon Archives & 6 Palace Street (max 12). **Sat 14th Mar:** Noon - 2 p.m. Visit to C16 Gardd Llygad y Dydd, Nantmor, Beddgelert.

CONWY BRANCH

Contact: Tony Scharer: tonyscharer@gmail.com 01745 813027. **Wed 21st Jan:** Llandudno Archives 9.30-12.30. Susan Ellis will be talking about the resources in their collection. **Thu 12th Feb:** 9.30-12.30 Llandudno Archives - housekeeping meeting. **Wed 4th Mar:** 10.30 - 12.30 Llandudno Archives. Peter Thompson is talking about vernacular architecture. Lunch (own arrangement); 1.30 - 2.30 visit to Aberconwy House, Conwy.

DENBIGHSHIRE BRANCH

Contact: Wally Barr: wallybarr@yahoo.co.uk 01745 888622.

Mawrth 24 Chwefror: Sesiwn ar 'Bensaerniaeth Draddodiadol Sylfaenol' gyda Peter Thompson (Arbenigwr Ymchwil a Chadwraeth Adeiladau Hanesyddol ac Ymddiriedolwr GDHDC) - y gweithdy i'w gynnal yng Nghynwyd, ger Corwen (nifer uchaf 12). **Mercher 25 Mawrth:** Ymweliad o dan arweiniad Phil Ebbrell, Pensaer Cadwraeth Cyngor Sir Ddinbych, i dŷ ffrâm nenfforch - Tŷ Coch, Llangynhafal am 2 yp.

CANGEN MEIRIONNYDD

Cyswllt: John Townsend: john@thetownsends.org.uk 01341 430262. **Llun 26 Ionawr:** 10.30 i 12.30yp yn Archifau Dolgellau, LL40 2YF. Cyflwyniad ar: Arweinyf i Ddechreuwr yn Ymchwilio i Hanes Tai ym Meirionnydd' gan John Townsend. £5 i'r rhai nad ydynt yn aelod. **Dydd Iau 26 Chwefror:** 11 yb - 1.30 yp yn Llwyn Du, Llanaber, Abermaw, LL42 1RR: Cyflwyniad ar 'Nodweddion Pensaerniaeth Gyffredin Sylfaenol (Sut i Ddarllen Adeilad)' gan Peter Thompson (nifer mwyaf 12). Ebostiwh john@thetownsends.org.uk am le (aelodau'n unig). **Mercher 25 Mawrth:** 2 yp - 4yp, ymweliad i dŷ a chyfarfod yn Tŷ Fry, Penrhyndeudraeth, LL48 6RT.

CHWILIO AM LOCHESI GWENYN

'Beth yw llochesi gwenyn?' Gallaf eich clywed yn gofyn: Llochesi gwenyn yw ceudodau/ cilfachau neu silffoedd mewn llechwedd heulog neu wal, neu mewn wal allanol tŷ neu dai allan, ar gyfer cynnwys a gwarchod cawenni - cawenni yw cychod o wellt torchog neu wiail lle y cedwir gwenyn er mwyn darparu mêl a chŵyr melyn. Fel arfer, mae lloches weny tua 18 modfedd o ran uchter, lled a dyfnder, ond gall fod dipyn golew yn fwy - fel arfer maent yn wynebu'r de.

Gallant gael eu hadeiladu fel rhai sengl neu mewn nifer ac mae rhai wedi eu stacio un ar ben y llall. Gallant hefyd fod ar ffurf silffoedd gwenyn lle maent yn ymwithio allan o'r wal - mewn geiriau eraill fe'u ceir ym mhob ffurf a maint. Deur o hyd i'r rhai addurniedig ar diroedd ystadau hanesyddol a cheir eraill wedi eu hadeiladu i mewn i waliau allanol tai fel arweddion pensaerniol. Mae llochesi gwenyn wedi cael eu defnyddio o'r Canol Oesoedd hyd at 1920au. Mae'r gair 'bole' yn wreiddiol yn deillio o hen air Norwyaidd yn golygu 'cilfach mewn wal'.



Cawen / a skep

Mae gwreiddiau cawenni'n mynd yn ôl o ran amser i niwl y gorffennol ac roeddynt yn ddull gwell o gadw gwenyn yn hytrach na dringo coed a chael mêl allan o nythod y gwenyn! Ceir sawl problem gyda chawenni - yn gyntaf maent yn eithaf bregus ac felly rhaid eu cadw mewn man cysgodol (yn arbennig yng Nghymru!) - hyn sy'n egluro'r angen am lochesi gwenyn.

Yn ail, arferid lladd y gwenyn pan oedd y mêl yn cael ei dynnu allan yn yr hydref o'r gawen lawnaf. Roedd yn broses greulon ac aneconomaidd - fe roedd y cawenni'n cael eu dal dros sylffwr yn llosgi fel bod yr anweddau yn lladd y gwenyn a fuasai wedyn yn syrthio allan. Yna, fe dorrid y mêl allan o'r gawen ond yn wahanol i fêl y cyfnod

Late Jan (date tbc): 'How to Research a House History' - workshop in Ruthin Archives, led by Margaret Dunn and staff from the Archives Department. **Tues 24th Feb:** 'Basic Traditional Architecture' session with Peter Thompson (Historic Buildings Conservation & Research specialist & DOWHG Trustee) - workshop to be held in Cynwyd, near Corwen (max 12). **Wed 25th Mar:** Visit led by Phil Ebbrell, Denbighshire County Council Conservation Architect, to a cruck-framed house - Ty Coch, Llangynhafal at 2pm.

MERIONETH BRANCH

Contact: John Townsend: john@thetownsends.org.uk 01341 430262. **Mon 26th Jan:** 10.30am to 12.30pm, in Dolgellau Archives, LL40 2YF. Presentation on: 'A Beginner's Guide to Researching a House History in Merioneth' by John Townsend. Non-members £5. **Thurs 26th Feb:** 11am to 1.30pm, at Llwyn Du, Llanaber, Barmouth, LL42 1RR: Presentation on: 'Basic Vernacular Architectural Features (How to Read a Building)' by Peter Thompson (max 12). Email john@thetownsends.org.uk for a place (members only). **Wed 25th Mar:** 2pm to 4pm, house visit and meeting at Tŷ Fry, Penrhyndeudraeth, LL48 6RT.

IN SEARCH OF BEE BOLES

'What are bee boles?' I hear you asking: bee boles are alcoves or shelves in a sunny bank or wall, or in the external wall of a house or outbuilding to contain and protect skeps - skeps are conical coiled straw or wicker hives in which bees were kept to provide honey and beeswax. Generally bee boles are around 18 inches high, wide and deep, but can be quite a bit bigger - they are usually south-facing.

They can be built as singles or in multiples and some are stacked one above the other. They can also be in the form of bee shelves where they protrude from the wall - in other words they come in all shapes and sizes. More ornate constructions can be found in the grounds of historic estates and some are built into the outside walls of houses as architectural features. Bee boles were used from the Middle Ages up to the 1920s. The word bole originally comes from an old Norse word meaning a 'recess in a wall'.

The origins of skeps go back into the mists of time and they were really just a more convenient way of keeping bees than climbing trees and taking honey out of bees' nests! There are a number of problems with skeps - firstly, they are fairly fragile and therefore have to be kept in a sheltered place (especially in Wales!) - hence the need for bee boles.

Secondly, the bees were usually killed when the honey was taken out in the autumn from the fullest skeps. The process was cruel and uneconomic - the skeps were held over burning sulphur so that the fumes killed the bees which then dropped out. The honey was then cut out of the skeps but unlike honey from modern hives it would have contained dead bees and larvae as well as faeces and other detritus! Modern hives keep the brood box (where the bees are raised from eggs laid by the queen) separate from the boxes where honey is taken from (called supers).

Finally, the colonies in less full skeps, which were kept for the following year's production, could die out in a cold winter or spring due to a lack of provisions - bees need

modern buasai yn cynnwys gwenyn wedi marw a larfâu yn ogystal ag ysgarthion a malurion eraill! Mae cychod modern yn cadw'r blwch deor (lle mae'r gwenyn yn cael eu magu o wyau a ddeorwyd gan y frenhines) ar wahân i'r blychau y tynnir y mêl ohonynt (ac a elwir yn 'supers').

Yn olaf, gall yr heidiau yn y cawennau llai llawn, a oedd wedi eu cadw ar gyfer cynnyrch y flwyddyn ganlynol, farw yn ystod gaeaf neu wanwyn oer oherwydd prinder bwyd - mae gwenyn angen mêl i allu cadw'n fyw.

Daeth yr arferiad o gadw gwenyn mewn cawennau i ben yn nechrau'r 20fed ganrif pan gyflwynwyd cychod gwenyn. Mae'r rhain yn llawer haws i'w trafod - ymdrinnir y gwenyn mewn modd mwy dynol fel bo'r mêl yn cael ei gadw ar wahân i weddill y cwch - ac mae cychod pren yn gallu gwrthsefyll y tywydd. Felly dim mwy o ladd y gwenyn wrth gael y mêl allan... a dim mwy o ddefnydd i'r llochesi gwenyn!

Yng Ngwesty Rhiw Goch, Bronaber (a fu'n dŷ bonheddwr), ceir cowt gyda silffoedd mawr o lechfaen, a ddefnyddid ar un adeg ar gyfer cadw gwenyn mewn cawen, ond bellach yn cael eu defnyddio i storio boncyffion yn y gaeaf. Bellach ystyrir eu bod yn hynod agos at y tŷ, ond nid oedd hyn yn anghyffredin yn y gorffennol. Roedd hyn yn galluogi'r gwenynwyr gadw llygad ar eu cawenni, yn enwedig yn y gwanwyn pan fo'r gwenyn yn heidio. Mae dal heidiau yn dal yn ddull pwysig o gynnal a chynyddu nifer yr heidiau mewn gwenynfa. Hefyd credid y buasai'r gwenyn yn cynefino gyda phobl ac felly yn dod yn 'llai ffyrnig a haws eu trin.' Yn olaf, ond nid y lleiaf, roedd hyn yn sicrhau y buasai'n llai tebygol i'r cawenni gael eu lladrata. Roedd mêl, cŵyr gwenyn a medd yn nwyddau gwerthfawr!

Mae gan Bryn yr Odyn, Ffestiniog, ddau bâr o lochesi gwenyn wedi eu lleoli dipyn oddi wrth y tŷ yn wal y berllan. Eto nid oedd hyn yn anghyffredin drwy fod y gwenyn yn gwella peillio ac yn elwa o ddigonedd o neithdar a phail pan oedd y coed yn eu blodau. Ond nid y tai crand yn unig oedd â llochesi gwenyn. Ychydig bellter o dan Dduallt, Ffestiniog ceir dau furddun, sef dau fwthyn a fras-godwyd o gerrig gyda llochesi gwenyn yn y waliau cerrig gerllaw. Felly mae'n werth cadw golwg am lochesi gwenyn a silffoedd gwenyn pan ydych yn archwilio hen dai a'u tiroedd, beth bynnag yw eu statws.



Bryn yr Odyn

Gall nad llochesi gwenyn oedd y ceudodau/cilfachau mawr ar lefel daear ond lle i gadw adar dof. Roedd gwyddau yn arbennig o werthfawr ac yn cael eu bwydo drwy orfodaeth a'u cadw mewn tyllau tywyll er mwyn eu cadw o fewn terfynau. Felly roedd cymaint yn digwydd mewn cilfachau syml mewn waliau! Os hoffech wirio os yw lloches gwenyn wedi ei chofnodi, ceir cofrestr yn <http://ibra.beeboles.org.uk/>.

John Townsend, Meirionnydd

honey to keep them alive.

Keeping bees in skeps died out in the early 20th century as bee hives took over. These are much easier to manage - the bees are humanely manipulated so the honey is kept separate from the rest of the hive - and wooden hives can withstand the weather. So no more killing bees when taking the honey out... and no more use for bee boles!



Rhiw Goch

At Rhiw Goch Hotel, Bronaber, (formerly a 'gentleman's house') there is a courtyard with large slate shelves, once used for keeping bees in skeps but now used for storing logs in winter. The close proximity to the building, although now surprising, was not unusual in the past. It allowed beekeepers to keep an eye on their skeps, especially in spring when bees swarm. Catching swarms is still an important way of maintaining and increasing the number of hives in an apiary. It was also believed that the bees would become acclimatised to people and therefore 'less ferocious and more tractable.' Last, but not least, it ensured the skeps were less likely to be stolen. Honey, beeswax and mead were valuable commodities!

Bryn yr Odyn, Festiniog, has two pairs of bee boles situated away from the house in the wall of its orchard. Again this was not unusual as the bees improved pollination and benefited from an abundance of nectar and pollen when the trees were in flower. But it wasn't just posh houses that had bee boles. Some distance below Dduallt, Ffestiniog there are two derelict roughly built cottages with bee boles in nearby stone walls. So it is worth keeping a look out for bee boles and bee shelves when you are viewing old houses and their grounds, whatever their status.



Dduallt

Some larger recesses at ground level may not have been bee boles but a place to keep domestic birds. Geese were particularly valuable and were force-fed and kept in dark holes to restrict their movement.

So there was much going on in simple recesses in walls! If you want to check whether a bee bole has been recorded there is a register at <http://ibra.beeboles.org.uk/>.

John Townsend, Merioneth